

## PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 12 MAWRTH 2019

Yn  
bressenol: Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),  
Y Cynghorwyr Cunnah, De'Ath, Philippa Hill-John, Joyce, Taylor a/ac  
Singh

Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig  
Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru),  
Rebecca Crump (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) a/ac  
Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr)

Yasmin Bahary (Cyngor Ieuenctid Caerdydd)

### 78 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Phillips a Morgan.

### 79 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorwyr Lee Bridgeman a Heather Joyce fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 6 ar y sail eu bod yn gynghorwyr ward.

### 80 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 18 Chwefror 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

### 81 : ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 3 GWASANAETHAU PLANT

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd) a Deborah Driffield (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Hinchey wneud datganiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys popeth da a drwg am y sefyllfa bresennol, sy'n amlygu'r angen am gynnydd enfawr, ond dywedodd fod 90% o Awdurdodau Lleol yn dangos gorwariant yn y maes hwn.

Rhodddwyd [Cyflwyniad](#) i Aelodau'r Pwyllgor. Darparwyd gwybodaeth am berfformiad mewn perthynas â Dangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol, Blaenoriaethau Strategol, Aseidiadau Lles, y Gofrestr Amddiffyn Plant, Adolygiadau Achos, Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Gweithlu.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Roedd y Pwyllgor yn croesawu tryloywder y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad.
- Cyfeiriodd yr Aelodau at y gorwariant parhaus a gofynnwyd am

sicrwydd y bydd y duedd yn newid yn y blynyddoedd i ddod. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod buddsoddiad yn digwydd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, bod £5.6m o'r £7.2m a fuddsoddwyd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol y llynedd yn mynd i'r Gwasanaethau Plant. Esboniwyd bod llawer o'r buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i newid arferion gwaith, er enghraifft asesiadau. Rhaid gwneud mwy o waith i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon.

- Nododd yr Aelodau nad oedd yr arbedion a ragamcanwyd o £2m o'r llynedd wedi'u cyflawni a holwyd a yw'r sefyllfa'n debygol o fod yr un fath eleni. Cafodd yr Aelodau wybod bod Caerdydd yn fwy dibynnol ar y sector preifat, ac mai hwy, yn sylweddol iawn, oedd â'r perfformiad isaf o ran gofal gan berthnasau. Mae'r ddwy sefyllfa'n annerbyniol ond bydd yn cymryd amser i'w datrys. Nodwyd hefyd fod gorddibyniaeth ar staff asiantaeth.
- Cyfeiriodd yr Aelodau at lefelau absenoldeb salwch a'r ganran isel o gyfweliadau dychwelyd i'r gwaith wedi'u cwblhau a'u cwblhau adolygiadau personol. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai gwasanaethau plant oedd yr unig ran o dargedau lefel salwch y Cyngor, a chynghorwyd y byddai'r ffigurau y cyfeiriwyd atynt yn cael eu hystyried ymhellach, er mwyn sefydlu ai dim ond ciplun ydynt. Pan gyflwynwyd adolygiadau personol, roedd y lefel cwblhau gryn dipyn yn llai, ond mae'r ffigwr wedi dyblu erbyn hyn.
- Bu'r Aelodau'n trafod y ddibyniaeth ar staff asiantaeth a'r cytundeb fframwaith sydd ar waith ar hyn o bryd ac sy'n ymwneud â chyfraddau talu ar gyfer staff. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod adolygiad yn cael ei gynnal o'r fframwaith hwnnw ar hyn o bryd. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai Caerdydd yn elwa o greu ei asiantaeth ei hun. Rai blynyddoedd yn ôl cynhaliwyd adolygiad, roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn barod i ymrwymo i gytundeb fodd bynnag, gwrthododd rhai ar y sail eu bod yn talu llawer mwy er mwyn cadw'r staff a oedd ganddynt. Mae'n rhywbeth y mae angen ei adolygu'n genedlaethol.

Gofynnodd yr Aelodau a allai Cymru gynnig bwrsariau tebyg i'w cynnig yn Lloegr i helpu i recriwtio gweithwyr cymdeithasol, ac fe'u cynghorwyd y byddai'n rhaid i hynny fod yn fenter Gofal Cymdeithasol Cymru, ond ar hyn o bryd mae 12 secondiad i fynd i'r brifysgol wedi cael eu cynnig ar y sail y bydd staff yn aros gyda'r awdurdod.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at sylwadau blaenorol a wnaed am gipio gwybodaeth, yn enwedig o gyfweliadau ymadael, pan drafodwyd cadw staff. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol nad yw'r staff dan unrhyw rwymedigaeth i fynychu cyfweliad ymadael. Er bod gwybodaeth am y rheswm dros adael yn cael ei chasglu, nid yw'r cyfrif a ddarperir bob amser yn gywir.
- Holodd yr Aelodau am lefel y llwythi achosion yn yr awdurdod a ble

mae'r lefelau o'u cymharu ag awdurdodau eraill. Nodwyd bod y llwyth achosion cyfartalog yn 15 achos, fodd bynnag, mae pob achos yn wahanol. Mae angen cyflwyno system rheoli llwyth gwaith. Dylai rheolwyr fod yn ymwybodol o natur y llwyth achosion a dylid ymgymryd â rheoli'r llwyth gwaith bob 4 i 6 wythnos.

- Nododd Aelodau fod recriwtio gweithwyr cymdeithasol yn anodd ar draws y wlad ond bod y cynnydd yng Nghaerdydd yn araf ond yn gyson, bod yna gynllun recriwtio a bod cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal. Cafwyd cyfarfod yn ddiweddar â myfyrwyr y flwyddyn olaf, 15 ohonynt, ac roeddent i gyd yn gadarnhaol am eu dyfodol. Mae cyfweliadau'n cael eu trefnu cyn gynted â phosibl, mae penodiadau'n cael eu gwneud fel cynorthwyywyr gwaith cymdeithasol hyd nes y byddant yn cael eu cofrestriad.

Esboniwyd i'r Aelodau fod y targed ar gyfer gwaith cymdeithasol wedi'i newid, a bod y cynllun corfforaethol wedi'i ddiwygio'n unol â hynny.

- Bu'r Aelodau'n trafod effaith y ffaith bod staff yn cael eu cylchdroi o fewn timau er mwyn ceisio osgoi gorweithio staff, ac fe'u hysbyswyd nad yw cylchdroi staff o fewn timau ar waith eto, fodd bynnag, mae'n un o'r cynigion sy'n cael ei ystyried o fewn Cymorth Cynnar a'r Tîm Derbyn ac Asesu.
- Gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'r Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth a dywedwyd wrthynt y byddai'r ganolfan a'r Tîm Derbyn ac Asesu yn cael eu cyfuno cyn iddynt gael eu hailstrwythuro ar lefel mwy. Bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol hefyd yn cadeirio cyfarfod amlasiantaethol i fwrw ymlaen â hynny ac mae rheolwr newydd wedi'i nodi.
- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am y Bil Cosbi ac fe'u cynghorwyd na wyddys beth fydd effaith y Bil ar hyn o bryd ond y bydd yn rhywbeth y bydd yn rhaid delio ag ef. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod 47% o'r galwadau i'r Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth gan yr heddlu, deallir y bydd rhywfaint o ailhyfforddi yn cael ei roi i'r hyn y mae'r heddlu'n ei ddweud.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau a thrafodwyd y ffordd ymlaen.

82 : ADRODDIAD CATEGOREIDDIO YSGOLION CAERDYDD 2019

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Michele Duddridge Hossain (Rheolwr Gweithredu Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad lle cyfeiriodd at y dyhead bod pob ysgol yn y categori gwyrdd. Bydd y trefniadau newydd yn gadarn,

yn gydlynol ac yn dryloyw; yr ydym yn dal i frwydro yn erbyn yr hyn y bydd rhai o'r mesurau newydd yn ei olygu'n ymarferol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y sylw bod 72.3% o holl ysgolion Caerdydd a arolygwyd gan Estyn, yn ystod y cylch arolygu saith mlynedd a ddaeth i ben ar y flwyddyn academaidd ddiwethaf, yn Dda neu'n Rhagorol ar gyfer Safonau neu Berfformiad Cyfredol, ond dywedasant y dylai pob ysgol fod yn dda neu'n rhagorol a dywedodd fod canlyniadau arolygiadau blynyddol fesul sector yn gallu bod yn gamarweiniol wrth droi canrannau yn rhifau.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Trafododd yr Aelodau rôl yr Ymgynghorwyr Her a phwysigrwyd rhoi adborth. Mae'n bwysig bod Ymgynghorwyr Her yn deall eu bod yn rhan o dîm ehangach sy'n sicrhau gwell addysg yng Nghaerdydd. Ni ellir ystyried gwella ysgolion heb ystyried y cyd-destun ehangach.
- Bu'r Aelodau'n trafod yr adolygiad o drefniadau'r consortiwm a fydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyn y Pasg, gan edrych ar y gwahaniaeth yn ei rôl, y rolau perthnasol a sut y dylai dyfodol y consortiwm edrych. Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch gorgyffwrdd o ran dyletswyddau; angen mwy o eglurder mewn cyfrifoldeb ac ansawdd cyffredinol y gwasanaeth; ei bod yn bwysig iddo wasanaethu anghenion Caerdydd; tensiynau rhanbarthol
- Nododd yr Aelodau fod gwella addysg yn y dyfodol yn golygu bod angen datblygu'r gweithlu – athrawon sy'n gallu addysgu'n wahanol ac arweinwyr sydd â'r sgiliau cywir. Mae manteision cadarnhaol i gysylltiadau rhwng ysgolion a'r ysgol, ac mae bod yn rhan o drefniadau rhanbarthol yn golygu bod cronfa fawr ar gael i dynnu ohoni. Mae'n helpu i baratoi ysgolion i ymgymryd â'r newidiadau ADY ar sail rhanbarthol.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau a thrafodwyd y Ffordd Ymlaen.

### 83 : DARPARIAETH YSGOL NEWYDD I WASANAETHU RHANNAU O BONTPRENNAU A PHENTRE LLANEIRWG

*Ailadroddodd y Cynghorwyr Bridgeman a Joyce eu diddordeb personol yn yr eitem hon ar y sail eu bod yn Gynghorwyr Ward lleol.*

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Michele Duddridge Hossain (Rheolwr Gweithredu Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad a oedd yn amlinellu'r cysylltiad rhwng ysgolion yn yr ardal; er y bu ymgynghori o'r blaen ynghylch cau Ysgol Gynradd Glan-yr-afon, penderfynwyd bellach y byddai nifer y

disgyblion yn gostwng yn hytrach na chau'r ysgol yn gyfan gwbl. Y bwriad yw adleoli Ysgol Gynradd Llaneirwg ar safle Sant Edeyrn a'i ehangu i fynediad un dosbarth yn hytrach na hanner fel y mae ar hyn o bryd. Gan y bydd wedi ei leoli o fewn y datblygiad tai newydd, bydd yna gyfraniad Adran 106.

Cafodd aelodau'r Pwyllgor sesiwn frifio gan y Cyfarwyddwr. Rhagwelir y bydd Ffederasiwn posibl rhwng Ysgol Gynradd Glan-yr-afon ac ysgol arall, er nad yw hyn wedi'i gadarnhau eto. Y bwriad yw datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a chymorth i deuluoedd ar safle Glan-yr-afon; mae Dechrau'n Deg wedi'u lleoli yno ar hyn o bryd. Un o'r rhwystrau posibl i hynny yw'r ffaith na ellir defnyddio rhan o'r adeilad oherwydd arllwysiad olew tanddaearol sydd wedi dod i'r amlwg y bydd angen ei ystyried a'i fuddsoddi rywfaint yn y dyfodol.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Holodd yr Aelodau am y cynnydd i gael mynediad un dosbarth ac a oes galw am hynny ac fe'u cynghorwyd y disgwylir iddi fod yn llawn ymhen amser, ar hyn o bryd nid yw'r datblygiad tai wedi'i gwblhau. Bydd yr ysgol yn cael ei symud yn ôl i'w hardal ddynodedig, a thros amser bydd yr ardal y mae'r disgyblion yn mynychu ohoni yn newid. Er mai dim ond mynediad un dosbarth fydd ar gael i ddechrau, bydd yr ysgol yn cael ei dylunio gyda'r nod o'i galluogi i gynnwys dau.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau a thrafodwyd y ffordd ymlaen.

#### 84 : TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2020-2021

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Michele Duddridge Hossain (Rheolwr Gweithredu Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion) i'r cyfarfod.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Merry wneud datganiad. Adroddiad blynyddol i'r Cabinet oedd hwn, ac mae'r trefniadau'n mynd allan ar gyfer ymgynghoriad bob blwyddyn. Cydnabuwyd yn flaenorol y bu twf yn nifer y disgyblion, ac o ganlyniad, roedd adolygiad wedi'i gynnal o feini prawf derbyn yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae polisi derbyn cydgysylltiedig yn cael ei weithredu, er nad yw tair ysgol yn yr ardal yn cymryd rhan. Byddai o fudd i bawb pe bai pob ysgol yn cymryd rhan.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Holodd yr Aelodau ynghylch nifer y dewisiadau sydd ar gael i rieni mewn ysgolion ar y ffurflen gais. Nodwyd y gall rhieni roi hyd at 5 dewis, tra bod cynnydd yn nifer y rhieni sy'n dewis yn cofnodi bod rhai yn dal yn afrealistig ynglŷn â'u dewisiadau. Mae'r arweiniad ar gwblhau wedi gwella fodd bynnag, derbynnir bod angen mwy o gefnogaeth mewn rhai meysydd wrth symud ymlaen.

- Cododd Aelodau fater ansawdd y cyfieithiad Cymraeg ar y system ymgeisio ar-lein ac fe'u cynghorwyd bod llawer o waith wedi'i wneud yn awr i ansawdd y cyfieithiad mewnol ac mae hefyd wedi cael ei godi gyda Capita, un o'r enghreifftiau o'r newidiadau a wnaed yw yn hytrach na le neu nage, mae opsiynau ticio neu nodi croes yn cael eu defnyddio bellach i osgoi dryswch.
- Codwyd pryderon ynghylch y dull ymgynghori; mae'n anodd i bobl ddeall yn union beth yw testun yr ymgynghori. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod yna her wirioneddol o ran y dewisiadau go iawn ac na ellir gwneud diwygiadau heb ymgynghori yn eu cylch. Mae problem bob amser o ran gwneud yr ymgynghoriad yn glir ac yn ddealladwy. Holodd yr Aelodau a fyddai'r newidiadau yn cael eu hamlygu yn yr ymgynghoriad ar wahân er mwyn galluogi'r cyhoedd i weld y newidiadau'n glir, yn enwedig os oedd y newidiadau arfaethedig yn fach.
- Bu'r Aelodau'n trafod niferoedd derbyn, dewis ysgolion, gwahanu a'r angen i adolygu'r polisi derbyn. Nododd yr Aelodau y bydd rhieni'n gwneud penderfyniadau gwahanol wrth wneud cais am ysgol. Mae angen ceisio delio â'r materion sy'n sbarduno pryder ymysg rhieni. Bydd yn rhaid i ddalgylchoedd ardal gael eu hystyried maes o law o gofio am ehangu lleoedd.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau a thrafodwyd y ffordd ymlaen.

#### 85 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd a nodi nifer o broblemau y cytunai'r Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu gyrru, ar ran y Pwyllgor, i'r Aelodau a'r Swyddogion perthnasol.

#### 86 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

#### 87 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a drefnwyd yw Dydd Mawrth 9 Ebrill 2019 am 4:30 pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.20 pm